Y Comisiwn Etholiadol

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau - PF a GI

CPE Ar-lein - cychwyn arni

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac ymgyrchwyr cofrestredig (mewn refferendwm) sydd am ddefnyddio CPE Ar-lein i gofrestru ac adrodd am eu rhoddion a'u gwariant

Cynnwys:

Cyflwyniad i CPE Ar-lein

Gweithio gyda CPE Ar-lein

Rheoli eich cyfrifon defnyddwyr

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ar gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost:publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Fel arfer byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio gyda'r gyfraith os ydych yn dilyn y canllawiau hyn.

Rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio 'dylech/dylid' ar gyfer eitemau yr ystyriwn i fod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Ein hymdriniaeth o orfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio cyllid a gwariant gwleidyddol. Rydym wedi ymrwymo i roi dealltwriaeth glir o'u rhwymedigaethau rheoleiddiol i'r rheiny yr ydym yn eu rheoleiddio trwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cyngor.

Lle bynnag bo'n bosibl, rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol i sicrhau cydymffurfiaeth. Ac rydym yn rheoleiddio mewn modd sy'n effeithiol, cymesur a theg.

Os nad ydych yn cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol fe allech chi neu'ch sefydliad fod yn destun cosbau sifil neu droseddol. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am ymdriniaeth y Comisiwn o orfodi yn http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances

1

CPE Ar-lein - cychwyn arni

Mae'r ddogfen hon ar gyfer:

Pleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac ymgyrchwyr cofrestredig mewn refferendwm sydd am ddefnyddio CPE Ar-lein i wneud y canlynol:

- cofrestru gyda ni
- cynnal neu adnewyddu eu cofrestriad
- cyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau
- cyflwyno datganiad cyfrifon neu
- cyflwyno cofnodion gwariant ymgyrchu

Mae'r ddogfen yn cynnwys:

- cyflwyniad i CPE Ar-lein
- gweithio gyda CPE Ar-lein
- cychwyn arni os ydych eisoes wedi'ch cofrestru
- cychwyn arni os ydych yn cofrestru plaid newydd neu fel ymgyrchydd
- rheoli eich cyfrifon defnyddwyr

2

Crynodeb

Os ydych yn cychwyn plaid wleidyddol neu'n bwriadu ymgyrchu mewn etholiadau neu refferenda, efallai y bydd angen i chi gofrestru â ni.

CPE Ar-lein yw ein cronfa ddata ddiogel lle gallwch gwblhau cofrestriadau a chynnal eich manylion cofrestredig.

Mae CPE Ar-lein yn caniatáu i chi gyflwyno adroddiadau rhoddion a benthyciadau statudol, datganiadau cyfrifon a chofnodion gwriant ymgyrch yn electronig. Mae'n rhaid i chi gael cyfrif defnyddiwr i wneud hyn.

Cyflwyniad

Yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau. Mae hyn yn cynnwys:

- cofrestru pleidiau gwleidyddol a chynnal y gofrestru o bleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.
- cofrestru ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau
- cofrestru ymgyrchwyr mewn refferenda
- cyhoeddi manylion o ble mae pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn cael eu harian a sut y maent yn ei wario

CPE Ar-lein yw ein cronfa ddata ar-lein o gofrestrau ar gyfer cofnodi a chyhoeddi'r wybodaeth hon.

I gael rhagor o wybodaeth ar gofrestru plaid wleidyddol fel ymgyrchydd gweler:

- Cyflwyniad i gofrestru plaid wleidyddol
- Cyflwyniad i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau
- Cyflwyniad i ymgyrchu refferendwm (Saesneg)

Buddion defnyddio CPE Ar-lein

Unwaith i'ch cyfrif defnyddiwr gael ei osod, gallwch gael mynediad a newid eich manylion cofrestredig. Gallwch hefyd gasglu a chyflwyno cofnodion statudol yn electronig.

Os ydych yn defnyddio CPE Ar-lein byddwch yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r gronfa ddata. Mae hyn yn golygu y gallwch greu cofnodion gwario a'u diweddaru'n rheolaidd cyn eu cyflwyno. Gallwch adfer a diweddaru eich gwybodaeth gyfredol ar y system. Er enghraifft, mae'n bosib cynnal rhestr o roddwyr neu gyflenwyr ac adfer eu manylion fel nad oes angen i chi roi'r wybodaeth hon eto i gwblhau cofnod rhoddion newydd.

4

Gweithio gyda CPE Ar-lein

Pwy ddylai fod yn weinyddwr i chi?

Mae'r system yn adnabod pedwar gwahanol fath o ddefnyddiwr gyda gwahanol lefelau o fynediad. Mae'n bwysig i chi ystyried pwy ydych chi am fod yn Weinyddwr CPE Ar-lein cyn i chi wneud cais i ddefnyddio CPE Ar-lein gan mai nhw fydd yr 'uwch ddefnyddiwr' fydd yn cyflawni'r holl swyddogaethau.

Gallwch ddewis un o'r swyddogion cofrestredig yn eich sefydliad e.e. trysorydd plaid wleidyddol, neu berson cyfrifol ymgyrchydd nad yw'n blaid i fod yn weinyddwr ar-lein i chi. Ond does dim rhaid i chi ddewis swyddog cofrestredig fel eich gweinyddwr.

Pwysig

Y gweinyddwr yw'r '**uwch ddefnyddiwr**' sy'n gallu defnyddio holl swyddogaethau'r system. Maen't yn:

- Gweindyddu defnyddwyr eraill
- Ailosod cyfrineiriau
- Cyflwyno cofnodion statudol (dim ond swyddog perthnasol y blaid all awdurdodi ar-lein)
- Newid manylion y sefydliad

Pwy arall all ddefnyddio CPE Ar-lein?

Defnyddiwr

Mae hwn yn gategori cyffredinol. Gall defnyddwyr:

- weld manylion cofrestredig
- paratoi ond ddim cyflwyno cofnodion statudol

Swyddog plaid

Dylid defnyddio'r categori hwn ar gyfer pobl sydd â rôl swyddogol o fewn y blaid. Er enghraifft, arweinydd, swyddog enwebu, trysorydd y blaid neu swyddog ymgyrchoedd.

Gall y gweinyddwr roi rolau penodol i unigolion yn y categori hwn fel bod ey mynediad o fewn y system yn cyd-fynd â'u rôl o fewn y blaid.

Lle bo gofyn cael awdurdodiad ar gyfer newidiadau penodol, dim ond y swyddog plaid perthnasol gall gwblhau hyn ar-lein. Os nad yw'r swyddog hwn yn defnyddio CPE Ar-lein bydd angen i chi argraffu a llofnodi copi papur o'r cais neu'r cofnod.

I gael rhagor o wybodaeth ar rolau swyddogion cofrestredig gweler:

- Cyflwyniad i gofrestru plaid wleidyddol
- Trosolwg o ymgyrchoedd gan rhai nad ydynt yn bleidiau
- Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm (Saesneg)

Swyddog uned cyfrifo (pleidiau gwleidyddol yn unig)

Mae'r math hwn o ddefnyddiwr i'w ddefnyddio gan drysorydd uned cyfrifo neu ail swyddog. Mae ganddynt fynediad cyfyngedig i wybodaeth y blaid ar y system ond mae'n caniatáu iddynt baratoi a chyflwyno'r wybodaeth statudol ar gyfer eu huned cyfrifo.

Ymgyrchydd nad yw'n blaid - person cyfrifol

Dylid defnyddio'r categori hwn ar gyfer pobl sydd â rôl 'person cyfrifol'.

Mae'n rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac ymgyrchwyr mewn refferenda oll gael 'person cyfrifol'. Mae'r person hwn yn gyfrifol am sicrhau fod cyllid yr ymgyrchwr yn cydymffurfio â'r rheolau ar wariant, rhoddion a benthyciadau.

6

Cychwyn arni

Os ydych eisoes wedi'ch cofrestru gyda ni

Rydym eisoes wedi creu cyfrifon defnyddwyr ar gyfer swyddogion cofrestredig pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr ar y cofrestrau. Bydd angen cyfeiriad e-bost cyfredol swyddog er mwyn i ni anfon cadarnhad iddynt fod eu cyfrif Gweinyddwr CPE Ar-lein yn fyw. Os nad ydych wedi derbyn e-bost, gallai hyn fod gan nad oes gennym gyfeiriad e-bost cyfredol ar eich cyfer. Cysylltwch â ni i ddarparu cyfeiriad e-bost.

Gallwch ddechrau defnyddio CPE Ar-lein cyn gynted ag y derbyniwch yr e-bost cadarnhad fydd yn cynnwys manylion mewngofnodi a chyfrinair dros dro, sy'n rhaid i chi eu newid pan fyddwch yn mewngofnodi am y tro cyntaf.

Gall y Gweinyddwr CPE Ar-lein ddeffro'r cyfrifon a rhoi mynediad i holl swyddogion eraill y blaid

1. Dewiswch fewngofnodi defnyddiwr plaid drwy ddilyn y dolenni yn CPE Ar-lein. Bydd hyn yn mynd â chi i sgrin newydd.

2. Rhowch y manylion mewngofnodi a chyfrinair yr anfonom atoch yn yr e-bost cadarnhau yn y blwch 'mewngofnodi defnyddiwr plaid/ymgyrchydd'.

3. Nawr gallwch newid y manylion dros dro hyn a deffro cyfrifon eraill - gweler 'Rheoli eich cyfrifon defnyddwyr' (tudalen 8).

Unwaith i chi fewngofnodi i'r system, chwiliwch am y '?' i gael mynediad i gymorth ar y sgrin.

Os ydych yn cofrestru plaid neu ymgyrchydd newydd

Bydd angen i chi roi Gweinyddwr CPE Ar-lein ar waith drwy gwblhau Ffurflen PEF 1: Enwebu gweinyddwr CPE Ar-lein a derbyn y telerau a'r amodau. Mae'n rhaid i chi ddarllen y telerau ac amodau defnyddio cyn cwblhau'r ffurflen.

Gallwch anfon y ffurflen wedi'i llofnodi atom, neu gallwch ei anfon drwy ffacs neu e-bost. Mae ein manylion cyswllt ar waelod y ffurflen PEF 1.

Pan fo Gweinyddwr CPE Ar-lein wedi'i greu, bydd angen cyfrif defnyddiwr wedi'i ddeffro cyn gallwch gofrestru'r blaid neu'r ymgyrchydd. Gallwch greu defnyddiwr newydd drwy ddilyn y dolenni o CPE Ar-lein.

1. Dewiswch y dewis mewngofnodi defnyddiwr plaid; bydd hyn yn mynd â chi i sgrin newydd.

2. Dewiswch y botwm cofrestru nawr ar waelod y dudalen; bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen gofrestru.

3. Cwblhewch y ffurflen ar y sgrin dwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin - bydd yn gofyn i chi am fanylion personol, gohebu a diogelwch. Wedi i chi gwblhau, cliciwch creu defnyddiwr.

Caiff y defnyddiwr hwn ei greu'n awtomatig fel Gweinyddwr CPE Ar-lein, ond bydd angen i chi newid y manylion hyn fel bo angen - gweler rheoli defnyddwyr.

Noder: wrth i chi greu defnyddiwr newydd, rydych yn cytuno i delerau ac amodau defnyddwyr y safle.

Pwysig

Unwaith i chi greu'r cyfrif defnyddiwr a mewngofnodi, bydd gennych opsiwn i gofrestru plaid wleidyddol neu ymgyrchydd nad yw'r blaid newydd.

Chwiliwch am y '?' i gael mynediad i gymorth ar y sgrin.

8

Cynnal eich cofrestriad

Mewngofnodwch a defnyddiwch y dewis Gweld Proffil ar y fwydlen i wirio fod eich manylion cofrestredig yn gyfredol.

Adnewyddu cofrestriad

Dim ond pan fo gofyn mae'r dewis hwn ar gael. Cliciwch adnewyddu cofrestriad. I bleidiau gwleidyddol dim ond i'r Trysorydd cofrestredig fydd hyn ar gael.

Byddwch yn cael eich annog i wirio fod eich cofrestriad yn gyfredol. Gweler newid manylion cofrestredig isod.

Byddwch yn cael ei annog i wneud y taliad adnewyddu. Gellir gwneud hyn ar-lein hefyd.

Newid manylion cofrestredig

Gall Gweinyddwr CPE Ar-lein, swyddogion y blaid neu berson cyfrifol wneud newidiadau i'r manylion cofrestredig.

1. Cliciwch ar gweld manylion a chliciwch newid manylion. Rhowch y wybodaeth newydd ar y sgrin. Mae canllawiau ar bob tudalen i'ch helpu chi; neu clichwch ar y dewis Cymorth ar frig pob sgrin.

2. Pan eich bod yn fodlon bod yr holl wybodaeth yn gyfredol, ewch i datganiadau. Mae'r system yn cyfrifo pwy sydd angen awdurdodi'r newidiadau a wnaed ar sail gofynion deddfwriaethol.

3. Dim ond y trysorydd neu'r person cyfrifol all awdurdodi'r rhan fwyaf o newidiadau. Os oes angen awdurdodiad swyddog arall, bydd angen iddynt fewngofnodi i wneud yr awdurdodiad yn unigol. Gall eich Gweinyddwr CPE Ar-lein roi mynediad iddynt i'r system - gweler rheoli defnyddwyr isod.

4. Pan fo'r datganiadau ar-lein wedi'u gwneud, ewch i'r dudalen Cyflwyno. Os oes angen taliad, byddwch yn cael eich annog i wneud yn y fan hon. Gellir talu ar-lein hefyd.

Noder: mae'n bosib i chi newid eich holl fanylion cofrestredig ar-lein.

Fodd bynnag, lle mae cais yn cynnwys **newid i rôl swyddog** bydd angen awdurdodiad y swyddog sy'n gadael a'r un sy'n dechrau, drwy argraffu'r ffurflen a grëir gan CPE Ar-lein a'u anfon atom yn y post, dros ffacs neu drwy e-bost gyda llofnodion y bobl berthnasol.

Creu a chyflwyno cofnodion

Mewngofnodwch a defnyddiwch gweld Cofnodion i archwilio cofnodion a gyflwynwyd yn flaenorol neu cliciwch creu cofnodion i greu cofnod newydd neu gofnod o ddim.

1. Dewiswch y math o gofnod a'r cyfnod adrodd

2. Mae'r sgrin wedi'i gosod yn wahanol ar gyfer pob math o gofnod. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin neu defnyddiwch yr opsiwn Cymorth ar frig y dudalen.

3. Pan eich bod yn barod i gyflwyno'r cofnod bydd dau ddewis gennych. Os yw'r trysorydd neu'r person cyfrifol yn ddefnyddwyr ar y system gallant fewngofnodi ac awdurdodi'r cofnod ar-lein. Heblaw hynny, bydd angen i chi argraffu crynodeb a'i ddanfon atom drwy'r post, ffacs neu e-bost gyda llofnod y trysorydd neu'r person cyfrifol arno.

I gael mwy o gymorth i gasglu a chyflwyno eich cofnodion, cysylltwch â ni a byddwn yn hapus i'ch helpu.

10

Rheoli eich cyfrifon defnyddwyr

Nodwch mai cyfrifoldeb y Gweinyddwr CPE Ar-lein yw sicrhau bod defnyddwyr CPE Ar-lein yn cael eu cadw'n gyfredol. Rydym yn argymell adolygu pwy yr ydych yn rhoi caniatâd iddynt gael mynediad i'ch proffil yn rheolaidd, a thynnu mynediad defnyddiwr pan nad oes ei angen bellach.

Pwysig

Noder: Cyfeiriadau e-bost yw'r dynodion unigryw ar CPE Ar-lein, - dim ond un cyfrif defnyddiwr all fod yn gysylltiedig i bob cyfeiriad e-bost.

Deffro defnyddiwr presennol

Os yw eich plaid neu'ch ymgyrchydd eisoes wedi cofrestru, yna bydd gan y swyddogion broffiliau yn barod. Er mwyn i'r swyddogion fod yn ddefnyddwyr CPE Ar-lein bydd angen i'r gweinyddwr ddeffro eu cyfrifon.

Gweinyddwr CPE Ar-lein

Gall Gweinyddwr CPE Ar-lein ddeffro defnyddwyr presennol drwy'r opsiwn rheoli defnyddwyr ar y fwydlen.

1. Cliciwch ar yr opsiwn rheoli defnyddwyr a byddwch yn gweld rhestr o ddefnyddwyr presenno9l, Swyddogion Plaid a Swyddogion Uned Cyfrifo ar y sgrin.

2. Dewiswch enw defnyddiwr unigol a chliciwch gweld yn y golofn olaf o'u cofnod

3. Defnyddiwch ddolen newid cyfeiriad e-bost i ychwanegu cyfeiriad e-bost y defnyddiwr hwn.

4. Dad-diciwch y blwch 'peidiwch â chysylltu dros e-bost' (gweler tudalen 12 i gael manylion gweinyddwr ar-lein).

5. Cliciwch arbed.

Bydd y defnyddiwr yn derbyn e-bost wedi'i greu'n awtomatig gyda manylion diogelwch dros dro.

Y defnyddiwr

1. Dilynwch y ddolen yn yr e-bost a defnyddiwch y manylion diogelwch dros dro i fewngofnodi.

2. Byddwch yn cael eich annog i newid eich enw defnyddiwr a chyfrinair ac ychwanegu cwestiwn ac ateb diogelwch. Pwyswch arbed.

3. Byddwch yn gweld eich tudalen proffil defnyddiwr. Gwiriwch y manylion a gwnewch unrhyw newidiadau. Pwyswch arbed.

Gallwch nawr ddefnyddio CPE Ar-lein.

Creu defnyddiwr newydd

Gall eich Gweinyddwr CPE Ar-lein greu cymaint neu gyn lleied ag sydd angen. Defnyddiwch yr opsiwn rheoli defnyddwyr ar y fwydlen.

1. Cliciwch ychwanegu defnyddiwr - bydd hyn yn mynd a chi i sgrin newydd 'enwebu defnyddiwr'.

2. Rhowch gyfeiriad e-bost y defnyddiwr newydd a chliciwch 'creu defnyddiwr' i greu cyfrif defnyddiwr newydd gyda mynediad i CPE Ar-lein.

3. Byddwch yn gweld y dudalen manylion Defnyddiwr. Cwblhewch y meysydd gorfodol - mae'r rhain wedi'u nodi gan seren (*)

Tynnu defnyddiwr

Dylai eich Gweinyddwr CPE Ar-lein dynnu defnyddwyr pan nad oes angen mynediad arnynt bellach. Defnyddiwch yr opsiwn rheoli defnyddwyr ar y fwydlen.

1. Nodwch y defnyddiwr a mynd i'r proffil drwy glicio Gweld.
2. Defnyddiwr yr opsiwn Dileu Defnyddiwr ar waelod y dudalen.

Nodwch y gallwch dynnu defnyddiwr os nad oes ganddynt rôl statudol o fewn y blaid, ymgyrchydd nad yw'n blaid neu ymgyrchydd cofrestredig.

12

Swyddogion cofrestredig neu bersonau cyfrifol nad ydynt yn defnyddio CPE Ar-lein

Os nad ydych am i ni gysylltu â chi dros e-bost neu ddefnyddio CPE Ar-lein mae gennych yr opsiwn o ddirprwyo'ch gweinyddiaeth ar-lein yn awtomatig i'r gweinyddwr CPE Ar-lein drwy ofyn i'r gweinyddwr adael y blwch 'peidiwch â chysylltu dros e-bost' wedi'i dicio ar eich proffil defnyddiwr.

Efallai bydd angen i chi lofnodi ffurflenni a datganiadau a gynhyrchir gan CPE Ar-lein fel rhan o gyflawni'ch rôl. Bydd angen i'ch gweinyddwr CPE Ar-lein argraffu'r ffurflenni a'r datganiadau hyn i chi eu llofnodi.

Os ydych yn llofnodi ffurflen neu ddatganiad, eich cyfrifoldeb chi yw cael yr holl wybodaeth angenrheidiol cyn ei lofnodi.

Sut allwn ni helpu

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn y dogfennau yr ydym wedi awgrymu yn y ddogfen hon, neu gallwch weld yr holl ganllawiau a'r adnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Cysylltwch â ni:

- Cymru: 029 2034 6800
  gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Lloegr: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0131 225 0200
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 028 9089 4020
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni: pef@electoralcommission.org.uk